

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr,
Bryn Hesketh

Dyddiad yr arolygiad:

8 – 10 Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf?.....	29
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	30
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad....	31
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	32
	Atodiad C – Cynllun gwella	33

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Fryn Hesketh, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda'r nos ar 8 Tachwedd ac yn ystod y dydd ar 9 a 10 Tachwedd 2017. Ymwelwyd â'r safle canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Bryn Hesketh

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl a enwebwyd). Cafodd yr arolygiad ei arwain gan reolwr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015). Ble y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl (1983), Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), Deddf Galluedd Meddyliol (2005), a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwnaethom ganfod yn sgil newidiadau sylweddol mewn personél ym Mryn Hesketh fod prinder staff rheolaidd yn darparu gofal yn yr ysbyty, a oedd wedi effeithio ar gysondeb y gofal.

Roedd Rheolwr newydd y ward yn darparu arweinyddiaeth gref ac roedd yr ysbyty yn y broses o adeiladu tîm ward ymroddedig a oedd yn canolbwyntio'n glir ar wneud y mwyaf o brofiad y claf.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd arweinyddiaeth ym Mryn Hesketh yn gryf
- Roedd y staff yn ymrwymedig i wneud y mwyaf o brofiad y claf
- Roedd y gwaith ailwampio wedi gwella pa mor gyfeillgar oedd yr ysbyty i gleifion â dementia
- Roedd dogfennaeth gyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sefydlogrwydd ei weithlu
- Trefniadau cefnogi oherwydd ei fod yn ward ar ei ben ei hun
- Yr amrediad o gymhorthion cyfathrebu sydd ar gael
- Trefniadau rheoli meddyginiaeth
- Cwblhau cofnodion clinigol.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bryn Hesketh yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Ffordd Hesketh, Hen Golwyn, Bae Colwyn LL29 8AT ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y gwasanaeth 13 o welyau ac mae'n darparu asesiad i bobl hŷn ar gyfer iechyd meddwl organig.

Mae'r gwasanaeth yn ysbyty rhyw cymysg gyda 13 o welyau. Ar adeg yr arolygiad, roedd 13 o gleifion yn derbyn gofal yn yr ysbyty.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys Metron Dros Dro, Rheolwr Ward, dau Ddirprwy Reolwr Ward a Dirprwy Reolwr Dros Dro. Roedd tîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Fodd bynnag, yn ystod y 12 mis blaenorol roedd nifer sylweddol o newidiadau personél ym Mryn Hesketh a oedd yn golygu y bu'n rhaid ail-adeiladu tîm y ward a dibynnu ar staff banc y bwrdd iechyd¹ a staff asiantaeth².

¹Mae staff dros dro a gyflogir gan y bwrdd iechyd yn gweithio pan fo angen.

²Mae staff dros dro a gyflogir drwy drydydd parti (asiantaeth) yn gweithio pan fo angen.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd y bwrdd iechyd yn ailwampio Bryn Hesketh a oedd yn gwella pa mor gyfeillgar oedd yr ysbyty i gleifion â dementia. Ond, oherwydd cynllun y ward amharwyd ar allu'r staff i arsylwi ar gleifion.

Roedd nifer uchel o arsylwadau uwch i gleifion drwy gydol yr arolygiad a oedd yn effeithio ar allu'r staff i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Roedd y staff yn amlwg yn ymrwymedig i wneud y mwyaf o brofiad y claf, ond roedd prinder staff rheolaidd a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn brofiadol, gan gyfyngu ar brofiad y claf ym Mryn Hesketh.

Cadw'n iach

Roedd amrediad o weithgareddau priodol ar y ward i gleifion ac roedd y rhain yn cynnwys llyfrau, gemau bwrdd, gweithgareddau hel atgofion, crefftau, caneuon ac ati. Gallai'r rhain ddarparu ysgogiad ymenyddol ac ymarferion ysgafn i gleifion a oedd yn briodol i'w hanghenion gofal.

Darparwyd papurau newydd dyddiol i'r ward, ac roedd hyn yn rhoi cyfle i gleifion fod yn ymwybodol o faterion cyfoes, naill ai ar eu pennau eu hunain neu gyda staff neu ymwelwyr.

Roedd y bwyd a ddarperir i gleifion yn rhoi dewis cytbwys o brydau, gyda ffrwythau ffres a diodydd ar gael yn hwylus.

Prin oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos i gleifion o amgylch y ward yn sgil yr ailwampio a oedd yn parhau o amgylch yr ysbyty.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod staff yr ysbyty yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, ac yn trin cleifion ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn benderfynol o ddarparu gofal ag urddas i'r cleifion.

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn bryderus eu bod ond yn gallu darparu gofal sylfaenol i gleifion. Roedd hyn o ganlyniad i'r nifer o gleifion a oedd angen arsylwadau uwch er mwyn cynnal diogelwch yr ysbyty a'r ddibyniaeth ar staff banc ac asiantaeth i gyflenwi anghenion staffio llawn, a oedd yn arwain at staff anghyfarwydd ac arferion anghyson.

Nododd staff nad oedd ganddynt yr adnoddau staffio rheolaidd i gynnal gweithgareddau ac asesiadau therapiwtig a fyddai'n cyfoethogi profiad y claf a darparu gwybodaeth am alluoedd ac anghenion gofal y cleifion. Yn ystod yr arolygiad gwnaethom arsylwi bod gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cyflawni arsylwadau uwch yn bennaf.

Cadarnhaodd staff eu bod yn ei gweld hi'n anodd yn aml i ddarparu ar gyfer anghenion gofal personol y cleifion yn sgil nifer cyfyngedig o staff "rhydd" ar y ward. Byddai angen o leiaf dau aelod o staff yn aml ar gyfer darparu gofal personol. Felly mae'n bosib y byddai oedi wrth gynorthwyo cleifion gyda mynd i'r toiled neu hylendid personol ac roedd gan hynny'r potensial o effeithio'n negyddol ar ofal ag urddas. Er gwaetha'r pwysau hwn, ar adeg ein harolygiad roedd y cleifion yn edrych fel pe baent yn derbyn gofal da.

Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau staff, roeddent yn ymateb gydag agweddau caredig ac ymatebol. Clywsom y staff yn siarad â chleifion mewn lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Ar y cyfan, gwnaethom arsylwi ar y staff yn dangos parch tuag at gleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol i geisio atal ymddygiad cleifion rhag dwysáu. Fodd bynnag, yn ystod un rhyngweithio a welwyd rhwng claf a nyrs asiantaeth nodwyd na ddefnyddiwyd technegau cyfathrebu effeithiol a thawelu mor effeithiol ag y gallent fod. Roedd hyn yn edrych fel pe bai'n dadwneud dull mwy cadarnhaol yr arsylwyd arno ynghynt gyda'r un claf, gan aelod parhaol o staff. Roedd hwn yn tanlinellu'r anhawster roedd y ward yn ei wynebu wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gyson yn sgil staff anghyfarwydd.

Roedd yn gadarnhaol bod y bwrdd iechyd wedi buddsoddi i ailwampio Bryn Hesketh er mwyn gwella pa mor gyfeillgar oedd yr ysbyty i gleifion â dementia a'i wneud i edrych yn fwy croesawgar i ymwelwyr. Ar adeg yr arolygiad roedd yr ailwampio bron â gorffen ac roedd Bryn Hesketh yn amgylchedd plaserus gyda rhai gosodiadau a ffitiadau cefnogol er mwyn cynorthwyo cleifion â dementia.

Fodd bynnag, nid oedd Bryn Hesketh wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer gofalu ac asesu cleifion a gafodd ddiagnosis o ddementia. Roedd y ward yn cynnwys nifer o goridorau a oedd yn amharu ar y llinellau arsylwi a gallai fod yn ddryslyd i rai cleifion, yn enwedig y rhai a oedd yng nghamau datblygedig dementia.

Roedd rhai ystafelloedd gwely a oedd wedi'u lleoli'n lletchwith i'r staff arsylwi arnynt yn rhwydd, ac roedd y golau'n wael mewn rhai ardaloedd o'r ward hefyd. Roedd hyn yn cyfrannu at y nifer o lefelau arsylwi uwch i gleifion er mwyn cynnal diogelwch. Pe bai'r cleifion yn derbyn gofal ar ward a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer asesu gofal dementia, mae'n debygol y byddai angen llai o arsylwadau uwch.

Roedd ailwampio Bryn Hesketh wedi gwella'r preifatrwydd i gleifion gydag ystafelloedd gwely unigol. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn, ond gallai'r staff eu hagor pe bai angen. Fodd bynnag, nid oedd paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a oedd yn golygu bod yn rhaid i staff agor drws yr ystafell wely er mwyn gwneud arsylwadau ar gleifion. Mae hyn hefyd yn creu'r posibilrwydd o amharu ar gleifion tra oeddent yn cysgu. Mae hyn o bwysigrwydd arbennig i gleifion â dementia oherwydd y cynnydd yn y tebygolrwydd o anhwylder cysgu.

Roedd nifer o doiledau ar gael i gleifion ledled y ward. Roedd y ward wedi'i rhannu i ardaloedd ystafelloedd gwely i ddynion a menywod ac roedd gan y ddwy ardal ystafell gawod ac ystafell gyda baddon. Fodd bynnag, er bod modd addasu uchder y baddon ar ochr dynion y ward ac roedd yn gymwys i'w ddefnyddio gydag offer codi claf, nid oedd hynny'n wir am y baddon i fenywod. Fe'n hysbyswyd felly fod y cleifion benywaidd a oedd yn dymuno defnyddio baddon yn cael eu cynorthwyo i ddefnyddio'r baddon ar ochr wrywaidd y ward. Gallai hyn effeithio ar urddas y cleifion benywaidd ac effeithio'n negyddol ar eu llesiant oherwydd bod yn rhaid iddynt fynd drwy ardal ystafell wely wrywaidd er mwyn cael mynediad at y baddon gwrywaidd.

Roedd cyfleusterau golchi dillad ym Mryn Hesketh, ond nid oedd y sychwr dillad yn gweithio, felly roedd y staff yn dibynnu ar rai aelodau o deuluoedd y cleifion i helpu gyda golchi a sychu. Pan nad oedd hyn yn bosib roedd y staff yn defnyddio llinell olchi er mwyn sychu eitemau, ac mae'n bosib nad oedd hynny'n ymarferol yn ystod y gaeaf. Felly mae'n rhaid atgyweirio'r peiriant sychu dillad neu osod un arall yn ei le.

Roedd yn gadarnhaol bod gan yr ysbyty amseroedd ymweld agored ac roedd gan yr ysbyty ystafell wely i ymwelwyr y gellid ei defnyddio fel y gallai aelodau o deulu aros dros nos os oedd angen. Gwnaethom arsylwi ar nifer o berthnasau a gofalwyr cleifion yn mynychu'r ysbyty drwy gydol yr arolygiad. Roedd ystafelloedd ac ardaloedd ledled yr ysbyty lle y gallai ymwelwyr gyfarfod â chleifion yn breifat.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu paneli arsylwi i atal tarfu ar gwsg y cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod baddon y menywod yn addas i'r cleifion hynny sydd angen cymorth er mwyn cael baddon.

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgyweirio neu osod peiriant sychu dillad newydd ym Mryn Hesketh.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd peth gwybodaeth yn cael ei arddangos i gleifion ac ymwelwyr i Fryn Hesketh. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth annibynnol, y Cyngor Iechyd Cymuned, sut i roi adborth ar y gwasanaeth a sut i wneud cwyn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos ar rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) na manylion cyswllt.

Yn y coridor a oedd yn arwain at y ward roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am y gweithgareddau a oedd ar gael i'r cleifion, a oedd yn cynnwys canu, trin gwallt a therapi cŵn.

Roedd bwrdd archwilio hefyd a oedd yn dangos cydymffurfiaeth y ward â meysydd fel: polisi 'dim o dan y benelin', cwmpadau cleifion, golchi dwylo ac ati. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliadau hyn yn cynnwys unrhyw ddyddiadau i hysbysu cleifion pa gyfnod o amser roeddent yn berthnasol iddynt.

Tra bod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'r coridor i'r ward, roedd prinder gwybodaeth ar y ward. Fe'n hysbyswyd bod hyn yn sgil ailwampio'r ysbyty ac y bydd gwybodaeth yn cael ei gosod ar waliau'r ward pan fydd y gwaith ailwampio wedi'i gwblhau.

Roedd gosodiadau a ffitiadau a oedd yn addas i gleifion â dementia ledled y ward er mwyn cynorthwyo cleifion. Roedd clociau mawr a dyddiadau wedi'u harddangos arnynt yn y ward er mwyn cynorthwyo cleifion i gyfarwyddo â'r dyddiad a'r amser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr hysbyswrdd archwilio yn cynnwys

amseroedd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrediad priodol o wybodaeth am gleifion yn cael ei harddangos ar ôl cwblhau'r gwaith ailwampio.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n dda â'r cleifion. Roedd y staff yn treulio amser yn cynnal sgysiau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Lle'r oedd cleifion yn parhau'n aneglur neu wedi camddeall, byddai staff yn esbonio'r hyn roeddent wedi ei ddweud yn amyneddgar.

Fodd bynnag, roedd gan y staff fynediad cyfyngedig i gymhorthion cyfathrebu a fyddai'n symleiddio cyfathrebu ar gyfer rhai cleifion ym Mryn Hesketh. Byddai'r rhain yn cynorthwyo staff i hysbysu a chasglu safbwyntiau cleifion ar feysydd gofal, therapïau, meddyginiaeth a bwyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a sicrhau bod gan staff gymhorthion cyfathrebu ar gael yn hwylus er mwyn cynorthwyo cyfathrebu â chleifion.

Gofal amserol

Fel y tynnwyd sylw ato drwy gydol yr adroddiad, mae angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal amserol ym Mryn Hesketh. Thema gyson yw'r angen i sicrhau sefydlogrwydd staffio fel bod gofal yn gallu cael ei ddarparu gan dîm profiadol a gafodd hyfforddiant priodol.

Mae angen gwelliannau hefyd o ran argaeledd offer ar gyfer gofal dementia a fyddai'n cynorthwyo staff i ddarparu gofal amserol; mae hyn yn cynnwys cymhorthion cyfathrebu ac asesu sydd ar gael yn hwylus.

Nid yw cynllun yr ysbyty yn cynnig ei hun i ddarparu'r gofal mwyaf annibynnol i gleifion yn sgil yr anawsterau wrth arsylwi ar gleifion. Roedd hyn yn cyfrannu at y nifer uwch o lefelau arsylwi uwch i gleifion er mwyn cynnal diogelwch. Pan fo anghenion gofal claf yn cael eu hasesu ar gyfer eu gosod mewn ysbyty neu yn y gymuned, rhoddir ystyriaeth i lefel y gefnogaeth neu'r arsylwadau sydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, byddai cymorth ac arsylwi'r claf yn dibynnu ar yr amgylchedd, gellid cynyddu neu leihau'r anghenion hyn o fewn amgylchedd addas. Felly, gyda rhai cleifion ar arsylwadau uwch i negyddu cynllun y ward,

gallai fod oedi posib i'r claf yn derbyn gofal mewn amgylchedd sydd lleiaf cyfyngol ar gyfer eu hanghenion oherwydd bod gosodiad Bryn Hesketh yn ei wneud yn ofynnol i'r claf gael arsylwadau uwch.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd ffeiliau cleifion yn cynnwys amrediad o asesiadau addas, dogfennau monitro ac asesiadau risg unigol. Roedd y rhain yn cynorthwyo staff i ddatblygu cynlluniau rheoli ymddygiad cadarnhaol unigol i gleifion.

Roedd y cynlluniau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn rhoi arweiniad i staff i roi gofal unigol, hybu annibyniaeth a chefnogi cleifion i gynnal eu sgiliau presennol. Fodd bynnag, yn sgil y lefel uchel o arsylwadau uwch i gleifion ni welsom y staff yn defnyddio'r cynlluniau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn ystod yr arolygiad. Gwnaeth y staff gadarnhau yn ystod trafodaethau gyda ni eu bod yn gallu cynnal yr arsylwadau uwch angenrheidiol hyd eithaf eu gallu ond roeddent yn brin o adnoddau staffio, ynghyd â staffio anghyson, i ddilyn cynlluniau rheoli ymddygiad cadarnhaol cleifion er mwyn hybu annibyniaeth cleifion.

Fel y nodwyd uchod, roedd y staff yn bryderus hefyd ynghylch yr anhawster roeddent yn ei gael wrth ddarparu gofal prydlon i gefnogi gofal personol cleifion yn sgil nifer uchel o arsylwadau uwch a lefelau staffio.

Hawliau pobl

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu atal cleifion rhag gadael yr ysbyty drwy'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Gallai'r cleifion hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol gyda chynrychiolydd a oedd yn mynychu'r ysbyty bob wythnos. Gallai'r cleifion gael mynediad hefyd at y gwasanaeth Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Roedd manau addas i'r cleifion gwrdd ag ymwelwyr drwy Fryn Hesketh a oedd yn cynnwys manau preifat os oedd angen.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd cyfleoedd ar gael i gleifion, eu perthnasau a'u gofalmwyr ddarparu adborth ar y gofal a ddarperir ym Mryn Hesketh. Roedd hysbysfwrdd adborth ar gael i ymwelwyr ddarparu eu safbwyntiau ynghyd â gwybodaeth am y broses Gweithio i Wella y GIG.

Fel y nodwyd uchod, roedd gwybodaeth am eiriolaeth a'r Cyngor Iechyd Cymuned yn cael ei harddangos ond roedd prinder gwybodaeth yn cael ei harddangos ynglŷn ag AGIC.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd staffio anghyson ym Mryn Hesketh wedi effeithio ar allu'r ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd recriwtio aelodau parhaol o staff wedi gwella arfer clinigol yn yr ysbyty.

Fodd bynnag, rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn yr adroddiad drwyddi draw ac mae angen mynd i'r afael â nhw cyn yr ydym yn hollol sicr bod Bryn Hesketh yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Cafodd mynediad i'r ward ei ddiogelu i atal mynediad heb awdurdod. Gallai'r staff fynd i mewn i'r ward gyda'u hallwedd electronig ac roedd ymwelwyr yn canu'r gloch ar fynedfa'r ward. Mae'r ward a'r holl ardaloedd i gleifion ar lawr daear yr ysbyty gyda mynedfa hygyrch, gan gynnwys ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd.

Roedd gan y staff fynediad at larymau personol i alw am gymorth os oedd angen, ond roedd y bwrdd iechyd yn aros i'r larymau personol gael eu haddasu er mwyn cynnwys cortyn tynnu fel ei bod yn haws i aelodau o staff ganu'r larwm. Roedd pwyntiau galw am nyrs o amgylch y wardiau ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion allu galw am gymorth pe bai angen.

Fel y nodwyd, nid oedd gan yr ystafelloedd gwely baneli arsylwi i gynorthwyo gydag arsylwadau gyda'r nos. Byddai paneli arsylwi yn cynorthwyo staff i

sicrhau diogelwch cleifion heb y potensial o darfu ar gwsg y cleifion a pheri dryswch neu ymddygiad heriol.

Roedd hi'n amlwg bod staff yn blaenoriaethu diogelwch cleifion drwy gynnal arsylwadau uwch yn ôl y gofyn. Roedd staff ychwanegol ar gael o Uned Ablett³ gyda phrofiad o ddarparu gofal iechyd meddwl i bobl hŷn, ond roedd cyfran uchel o staff yn cael eu tynnu o staff banc neu asiantaeth y bwrdd iechyd. Roedd pryderon gan staff ym Mryn Hesketh nad oedd gan rai o'r staff banc neu asiantaeth y sgiliau neu'r profiad angenrheidiol i ddarparu gofal ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd hyn yn effeithio'n negyddol ar ddarpariaeth gofal a chynnal diogelwch y cleifion ym Mryn Hesketh.

Roedd hi'n amlwg ers penodi rheolwr y ward y gwnaed ymdrechion sylweddol i sicrhau bod staff y ward ym Mryn Hesketh wedi cael eu hyfforddi mewn Ymyriad Corfforol Cyfyngol⁴ er mwyn helpu i gynnal diogelwch. Fodd bynnag, yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda'r ddibyniaeth ar staff banc ac asiantaeth, roedd Bryn Hesketh yn ddibynnol ar ymateb staff a hyfforddwyd mewn Ymyriad Corfforol Cyfyngol o Uned Ablett i fynychu Bryn Hesketh er mwyn rheoli ymddygiad heriol. Roedd hyn yn golygu y gallai fod oedi yn aml yn yr ymyriad gan fod angen i staff deithio tua 10 milltir er mwyn atal neu gynorthwyo gyda digwyddiad.

Tra bod recriwtio staff parhaol i Fryn Hesketh wedi lleihau'r ddibyniaeth ar gefnogaeth ar gyfer Ymyriadau Corfforol Cyfyngol o Ablett, roedd ei angen o dro i dro o hyd, a oedd yn golygu y gallai fod oedi o hyd wrth ddarparu ymyriadau priodol a chynyddu'r perygl o niwed i'r claf neu eraill.

Roedd y meddyg a oedd ar ddyletswydd yn ystod y dydd yn cael ei ddarparu gan Ysbyty Glan Clwyd, sef lleoliad Ablett hefyd. Nododd y staff gan fod Bryn

³Mae Uned Ablett yn ysbyty iechyd meddwl y bwrdd iechyd ar safle Ysbyty Glan Clwyd tua 10 milltir o Fryn Hesketh.

⁴Caiff Ymyriadau Corfforol Cyfyngol eu diffinio fel gweithredoedd bwriadol ar ran unigolyn (unigolion) arall sy'n cyfyngu ar symudiad, rhyddid a/neu ryddid i weithredu yn annibynnol er mwyn: cymryd rheolaeth ar unwaith o sefyllfa beryglus lle y mae posibilrwydd gwirioneddol o niwed i'r unigolyn neu eraill os na chymerir unrhyw gamau gweithredu; diweddu neu leihau'n sylweddol y perygl i'r unigolyn neu eraill; peidio â chynnwys neu gyfyngu ar ryddid yr unigolyn am gyfnod hirach nag sydd ei angen.

Hesketh yn uned ar ei phen ei hun roeddent yn teimlo'n aml fod oedi mewn presenoldeb meddyg, ac na fyddai hynny'n digwydd pe bai'r ward wedi'i leoli yn yr Ablett. Roedd y pryder hwn yn cael ei ailadrodd ar gyfer meddyg y tu allan i oriau'r bwrdd iechyd.

Felly, gan fod Bryn Hesketh yn ward ar ei ben ei hun ar gyfer asesu dementia, roedd y staff yn teimlo'n ynysig ac yn bryderus ynghylch eu gallu i ddarparu ymateb prydlon a phriodol i ymddygiad heriol neu argyfyngau meddygol. Nododd y staff eu bod yn teimlo y byddent yn cael mwy o gymorth pe baent yn agos at ward iechyd meddwl pobl hŷn arall lle yr oedd staff profiadol a hyfforddwyd yn briodol ar gael yn barod i gynorthwyo'n brydlon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod larymau personol yn cael eu gwella i gynnwys cortyn tynnu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau dyletswydd meddygol amserol ar gael ar gyfer Bryn Hesketh.

Atal a rheoli heintiau

Trwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod yr ysbyty'n lân, yn ôl pob golwg, ac yn rhydd rhag annibendod. Roedd cyfarpar glanhau wedi'i storio a'i drefnu'n briodol.

Roedd gan yr ysbyty staff cadw tŷ penodol a oedd yn cynnal glanweithdra'r ward drwy gydol y dydd. Roedd staff y ward yn gyfrifol am amserlenni glanhau ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion glanhau'r ward yn dangos bod y rhain yn cael eu cwblhau'n rheolaidd; felly nid oedd modd i ni gadarnhau a oedd y dyletswyddau hyn yn cael eu cwblhau yn ôl y galw a gallai hynny effeithio'n negyddol ar reoli heintiau ym Mryn Hesketh.

Roedd cynnyrch hylendid dwylo ar gael yn yr ardaloedd perthnasol o'r ysbyty; roedd arwyddion priodol gyda'r rhain. Roedd gan staff hefyd fynediad at Gyfarpar Diogelu Personol atal heintiau a dadheintio pan oedd angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau ym Mryn Hesketh.

Maeth a hydradu

Darparwyd prydau bwyd i'r cleifion yn yr ysbyty ac roeddent yn dewis o fwydlen yr ysbyty. Roedd cofnodion o hoff bethau a chasbethau cleifion unigol ynghyd ag unrhyw anghenion neu hoffterau dietegol arbennig. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach nid oedd unrhyw gymhorthion cyfathrebu ar gael i helpu dewis y cleifion, fel bwydlenni â lluniau.

Nid oedd amrediad o gytleri neu lestri a addaswyd yn arbennig ar gael ar y ward er mwyn i staff asesu anghenion cleifion neu gynorthwyo cleifion i fwyta'n annibynnol.

Roedd yn gadarnhaol bod gan y ward lestri lliw penodol i'w defnyddio pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi'n ddirgel i gleifion a nodwyd. Mae hyn yn cefnogi staff Nyrsio Cofrestredig i roi meddyginiaeth yn gywir.

Wrth adolygu'r dogfennau gwnaethom arsylwi bod gan y cleifion siartiau mewnbwn bwyd a hylif i fonitro'u treuliant ac Offeryn Sgrinio Cymhwysol ar gyfer Diffyg Maeth⁵. Fodd bynnag, mewn nifer o gofnodion y gwnaethom eu hadolygu roedd bylchau rheolaidd a oedd yn awgrymu nad oedd y claf wedi cael bwyd neu hylif am gyfnod hir. Esboniodd staff y gallai rhai bylchau fod oherwydd bod y cleifion gyda'u perthnasau ac felly mae'n bosib nad oedd y staff yn bresennol pan wnaeth y claf fwyta bwyd neu yfed hylif. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi neu nodi'r rhesymau dros unrhyw ddiffygion yn y cofnodion.

Pan gofnodwyd nad oedd cleifion wedi bwyta digon o fwyd neu yfed digon o hylif, nid oedd unrhyw gofnod clir i nodi pa gamau gweithredu roedd staff wedi'u cymryd wedyn i fynd i'r afael â hyn.

⁵Offeryn Sgrinio Cynhwysol ar gyfer Diffyg Maeth - offeryn sgrinio pum cam i nodi oedolion sy'n dioddef o ddiffyg maeth, neu sydd mewn perygl o fod, neu bobl sy'n ordew. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau rheoli sy'n gallu cael eu defnyddio i ddatblygu cynllun gofal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu amrediad o gytleri a llestri a addaswyd yn arbennig i Fryn Hesketh.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cwblhau siartiau bwyd a hylif, gan gynnwys y camau gweithredu sy'n angenrheidiol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaeth yn ddiogel o fewn ystafell glinig Bryn Hesketh. Roedd gan y clinig gabinet storio meddyginiaeth cyfrifiadurol a oedd angen adnabyddiaeth ôl bys i gael mynediad iddo. Fodd bynnag, nid oedd staff banc ac asiantaeth yn gallu cael mynediad at y cabinet cyfrifiadurol. Felly, roedd troli meddyginiaeth ychwanegol ar waith a chabinet cyffuriau a reolir. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd y troli meddyginiaeth wedi'i glymu'n ddiogel i wal y clinig ac nid oedd y cabinet o gyffuriau a reolir o'r safon ofynnol. Er bod y rhain yn fesurau dros dro, roeddent yn ychwanegu cymhlethdod at reoli meddyginiaeth yn yr ysbyty.

Cawsom ein hysbysu hefyd yn sgil y ddibyniaeth ar staff banc ac asiantaeth, ac am nad oeddent yn gyfarwydd ag archebu meddyginiaeth, bu oedi wrth archebu meddyginiaeth pan oedd meddyginiaeth claf unigol yn isel o ran stoc.

Pryder arall y gwnaeth y staff dynnu ein sylw ato oedd nad oedd meddyginiaeth yn cael ei dosbarthu'n uniongyrchol i Fryn Hesketh, ond yn hytrach i ysbyty cyfagos Cymuned Bae Colwyn. Roedd y staff wedyn yn ddibynnol ar system porthor y bwrdd iechyd i drosglwyddo'r feddyginiaeth i Fryn Hesketh. Gwnaeth y staff gadarnhau bod hyn wedi achosi oedi mewn meddyginiaeth yn cyrraedd Bryn Hesketh.

Roedd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr. Roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cwblhau ar feddyginiaeth stoc, gan gynnwys cyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n agored i gael eu camddefnyddio.

Roedd ffotograffau o'r cleifion cyfredol yn y ffeil feddyginiaeth er mwyn cynorthwyo staff i adnabod y claf cywir ar gyfer eu meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid oedd ffotograff o bob claf yn bresennol; gan fod y rhain wedi cael eu derbyn i'r ysbyty yn fwy diweddar. Dywedodd staff eu bod yn aros am

gamera newydd ac felly nid oedd modd iddynt gymryd ffotograffau ar gyfer y ffeil feddyginiaeth. Gwnaeth y staff esbonio sut roeddent yn gallu adnabod claf er mwyn cadarnhau pwy oeddent drwy dulliau eraill ar gyfer y cleifion hynny heb ffotograff.

Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau a adolygwyd yn cynnwys enw'r claf, ond nid oeddent yn cofnodi eu statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Nid oedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth bob amser yn cynnwys copiâu o'r dystysgrif Cydsynio i Driniaeth, lle y bo'n berthnasol.

Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a nodwyd rheswm pan nad oedd y feddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Pan oedd cleifion yn derbyn meddyginiaeth yn ddirgel, roedd cofnod da o hynny a dangoswyd penderfyniad amlddisgyblaethol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaeth, gan gynnwys cyffuriau a reolir, yn cael ei storio'n ddiogel ym Mryn Hesketh.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei harchebu mewn da bryd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer dosbarthu meddyginiaeth i Fryn Hesketh.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dull o adnabod drwy luniau ar gael ar holl siartiau meddyginiaeth cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cofnodi'n glir statws cyfreithiol y cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cynnwys copi o'r dystysgrif ddiweddaraf ar gyfer Cydsynio i Driniaeth.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwnaeth y staff gadarnhau bod prosesau wedi'u hen sefydlu ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliad dyddiol o offer dadebru; roedd y staff wedi nodi pryd y gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod yr offer ar gael ac yn gyfredol. Fodd bynnag, roedd ambell fwch wrth gofnodi gwiriadau dyddiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr archwiliad o offer dadebru yn cael ei gwblhau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Rydym wedi nodi meysydd i'w gwella drwy gydol yr adroddiad. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd iechyd gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain cyn yr ydym yn hollol sicr bod Bryn Hesketh yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn rhai papur ac roeddent yn cael eu storio a'u cynnal a'u cadw o fewn y swyddfa nyrsio oedd o dan glo. Gwelsom staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad. Roedd gan bob claf wybodaeth gofal estynedig a oedd yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ar draws sawl rhifyn.

Roedd yr hysbysfwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion yn y swyddfa nyrsio yn cael ei gadw ar gau pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio ac nid oedd modd ei weld o'r tu allan i'r ystafell. Felly roedd y staff yn cynnal gwybodaeth a gynhwysir ar y bwrdd yn gyfrinachol.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, roedd bylchau rheolaidd mewn cofnodion clinigol sydd angen eu gwella.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y bwrdd iechyd wedi cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r iaith a ddefnyddir mewn cofnodion cleifion er mwyn lleihau iaith labelu⁶ fel bod y staff yn ffocysu ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pedwar o'r cleifion ar draws un ward ym Mryn Hesketh.

Roedd hi'n amlwg bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r defnydd o'r Ddeddf neu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd gorchmynion cadw wedi cael eu cymhwyso a'u hadnewyddu yn unol â gofynion y Ddeddf.

Roedd hi'n amlwg bod y staff wedi ymdrechu i hysbysu cleifion am eu hawliau statudol o dan y Ddeddf. Roedd gan y cleifion fynediad i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol ac roedd cofnodion amdanynt yn cymryd rhan yn cael eu rhoi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd pob achos o absenoldeb trwy ganiatâd wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei darparu i gleifion yn unol ag Adran 58 y Ddeddf, Cydsyniad i Driniaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid oedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth bob amser yn cael eu cadw gyda'r siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth gyfatebol. Golygai hyn na allai staff a oedd yn rhoi meddyginiaeth gyfeirio at y dystysgrif i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth Adran 58 y Ddeddf.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o ddau o gleifion. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru.

Roedd tystiolaeth bod cydlynwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion a, lle bo'n briodol, bod aelodau teulu yn cael eu cynnwys yn y trefniadau cynllunio

⁶Labelu yw'r weithred o ddisgrifio'r unigolyn fel ymddygiad neu drwy ei ymddygiad gan awgrymu bod yr unigolyn i'w feio am ei ymddygiad. Mae labelu yn creu stigma sy'n bygwth darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

gofal. Roedd cynllunio ar gyfer rhyddhau yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl er mwyn nodi'r canlyniad fwyaf priodol i'r claf.

Roedd ffeiliau cleifion yn cynnwys amrywiaeth o asesiadau a dogfennau monitro priodol, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau canfyddedig a sut i'w lliniaru a'u rheoli. Fodd bynnag, roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a adolygwyd yn gryno, yn brin o fanylion penodol ynghylch pa gamau gweithredu a gaiff eu cymryd a chan bwy.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu gofynion Mesur Cymru.

Deddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Pan oedd angen, roedd y staff wedi cyfeirio at yr awdurdod lleol er mwyn gweithredu Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ar gyfer y cleifion perthnasol. Roedd yn amlwg bod y broses yn cael ei gweithredu'n briodol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hunan ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd Bryn Hesketh yn cael ei reoli'n dda gan reolwr y ward a oedd yn darparu arweinyddiaeth gref gyda chymorth rheolaidd gan y Metron Dros Dro.

Roedd gweithlu ymroddedig a phenderfynol a oedd yn dymuno darparu'r gofal gorau y gallant gyda staffio anghyson. Mae angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau gweithredu pellach i sefydlogi staffio yn yr ysbyty a chefnogi staff i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol a derbyn goruchwyliaeth reolaidd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd yn gadarnhaol drwy gydol ein harolygiad, er gwaethaf y problemau a nodwyd ym Mryn Hesketh, bod staff y ward ac uwch reolwyr yn barod i dderbyn ein safbwyntiau, canfyddiadau ac argymhellion.

Bu nifer o newidiadau mewn personél yr uwch reolwyr o fewn y gyfarwyddiaeth iechyd meddwl yn y bwrdd iechyd. Roedd uwch reolwyr y bwrdd iechyd y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r heriau staffio yn yr ysbyty ac roeddent wedi gweithredu newidiadau i'r rheolwyr ym Mryn Hesketh.

Roedd newidiadau personél wedi digwydd ar draws y graddau o weithwyr cymorth gofal iechyd i'r Metron. Yn ystod y 12 mis diwethaf roedd Rheolwr Dros

Dro i'r Ward a Metron Dros Dro⁷ wedi dechrau gweithio ym Mryn Hesketh gyda swydd Rheolwr y Ward yn cael ei gwneud yn un barhaol ym mis Medi 2017. Roedd dau Ddirprwy Reolwr y Ward newydd hefyd, wedi'u cefnogi gan Ddirprwy Reolwr ychwanegol i'r Ward Dros Dro a oedd yn ysgwyddo'r sifftiau nos.

Yn ystod yr arolygiad canfuom fod y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i redeg gan dîm o staff a oedd yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Yn fwy penodol, gwnaeth y trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r uwch aelodau o staff gan gynnwys Rheolwr y Ward a'r Metron Dros Dro, ddangos eu bod yn ymwybodol o broblemau'r gwasanaeth a oedd angen eu gwella ac roedd ganddynt ymroddiad clir i fynd i'r afael â'r rhain. Roedd hyn er mwyn codi safonau triniaeth a chymorth i gleifion.

Gwnaeth Rheolwr presennol y Ward a'r Metron Dros Dro ddangos rheolaeth ac arweinyddiaeth gref yn ystod yr arolygiad. Yn ystod ein sgysiau â staff y ward ac uwch reolwyr gwnaethom dderbyn adborth cadarnhaol ynglŷn ag arweinyddiaeth a pha mor agored oedd Rheolwr y Ward a'r Metron Dros Dro.

Mae gan y bwrdd iechyd systemau a phrosesau a ddiffiniwyd ar waith er mwyn rheoli a gwella'r gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Fodd bynnag, rydym wedi nodi meysydd i'w gwella drwyddi draw yn yr adroddiad, yn arbennig llywodraethu cofnodion clinigol ac archwiliadau a sefydlogi staff, a fyddai'n cryfhau trefniadau llywodraethu ym Mryn Hesketh.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y bwrdd iechyd nifer o adolygiadau iechyd meddwl pobl hŷn a oedd wedi'u cwblhau ac yn gyfredol a fyddai'n siapio darpariaeth y gwasanaeth ym Mryn Hesketh ar draws y bwrdd iechyd. Rydym yn gofyn i gael ein hysbysu am adolygiadau'r gwasanaeth a'i gynydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y camau gweithredu ar gyfer y canfyddiadau y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu cwblhau er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu ym Mryn Hesketh.

⁷Roedd rôl y Metron Dros Dro yn gyfrifol am Fryn Hesketh a Ward Tegid yn Uned Ablett a oedd tua 10 milltir o Fryn Hesketh.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Fel y nodwyd uchod bu newidiadau sylweddol i bersonél y gweithlu ym Mryn Hesketh yn sgil nifer o resymau gan gynnwys y staff yn dewis gadael, adleoli a gwaharddiadau, ac roedd rhai o'r rhain yn parhau. Roedd y newidiadau personél hyn yn cynnwys y Metron, rheolwr y ward, dirprwy reolwyr y ward, nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Roedd yn amlwg bod y bwrdd iechyd wedi gwneud ymdrechion pendant i staffio Bryn Hesketh a sefydlogi'r gweithlu yn yr ysbyty. Roedd penodi uwch staff y ward wedi darparu peth sefydlogrwydd ac arweinyddiaeth gref ar gyfer yr ysbyty. Ar adeg yr arolygiad roedd recriwtio nyrsys cofrestredig yn parhau, gydag wyth nyrs gofrestredig yn eu swyddi, gan gynnwys rheolwr y ward, a phum swydd wag.

Tra bod cyflenwad llawn o weithwyr cymorth gofal iechyd, yn sgil yr heriau roedd rhai o'r cleifion yn eu cyflwyno roedd angen i'r ward weithredu lefelau arsylwi uwch a oedd yn golygu bod angen staff ychwanegol. O ganlyniad bu'n rhaid i'r ward ddefnyddio cyflenwad uwch o staff banc neu asiantaeth y bwrdd iechyd er mwyn diwallu anghenion staffio gweithwyr cymorth gofal iechyd ychwanegol a llenwi swyddi gwag nyrsys cofrestredig; weithiau roeddent yn fwyafrif y staff ar y sifft. O ganlyniad, bu staffio anghyson ym Mryn Hesketh.

Tra bod recriwtio i swyddi gwag wedi lleihau'r defnydd o staff banc ac asiantaeth, roedd hi'n ddealladwy bod staff y ward yn dal i fod yn bryderus am y lefelau o staff banc ac asiantaeth oedd eu hangen. Hefyd bu problemau gyda'r prosesau ar gyfer cael staff banc ac asiantaeth ynghyd ag ansawdd a phrofiad y staff a glustnodwyd i'r ward.

Roedd system staff banc canolog gan y bwrdd iechyd a chafwyd staff ychwanegol oddi yno. Fodd bynnag, o dro i dro gwnaeth y system staff banc ddarparu staff banc nad oeddent bob amser yn briodol, yn sgil prinder profiad neu hyfforddiant (gan gynnwys Ymyriad Corfforol Cyfyngol) i weithio gyda'r grŵp cleifion ym Mryn Hesketh. Roedd gan y staff, o dro i dro, bryderon tebyg ynghylch addasrwydd y staff asiantaeth a ddarparwyd. Pan benderfynwyd bod staff yn anaddas i weithio yn yr ysbyty roeddent yn cael eu hysbysu eu bod wedi cael eu tynnu oddi ar y sifft. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn cael ei gofnodi ar system y bwrdd iechyd ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau.

Bu anawsterau gweithredol hefyd gyda'r system banc a systemau'r asiantaeth yn y bwrdd iechyd. Roedd un digwyddiad lle'r oedd sifft nyrs gofrestredig wedi'u ddyrannu i weithiwr cymorth gofal iechyd na fyddai wedi gallu cyflawni'r rôl, ac

ni wnaeth y system banc ail-awdurdodi'r cais pan wnaeth yr aelod o staff banc ganslo ei argaeledd, gan arwain at oedi sylweddol ar gyfer cysylltu â gwasanaethau asiantaeth yn dilyn awdurdodi. Roedd y rhain i gyd yn effeithio'n negyddol ar allu staff y ward i gwblhau eu dyletswyddau gofynnol.

Dylai'r systemau hyn gefnogi'r ward i ddarparu nifer digonol o staff a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol, er mwyn cynnal diogelwch a darparu gofal ag urddas, yn ôl y galw. Mae'r adroddiad yn dangos sut y gwnaeth y diffygion yn y systemau hyn effeithio ar lefel y gofal y gellid ei roi i gleifion. Gwnaeth arolygiad AGIC i Heddfan⁸ ym mis Mehefin 2017 dynnu sylw at bryderon tebyg ynghylch staff banc yn mynychu wardiau iechyd meddwl heb y sgiliau neu'r profiad priodol o ddarparu gofal ar wardiau iechyd meddwl.

Gwnaethom adolygu hyfforddiant staff; roedd hi'n amlwg bod hyn yn cael ei fonitro gan reolwyr y wardiau ac uwch reolwyr. Bu gwelliannau mawr wrth gwblhau hyfforddiant gorfodol dros y 12 mis diwethaf. Roedd hi'n amlwg bod Rheolwr y Ward, wedi'i gefnogi gan Glerc y Ward, wedi gwneud ymdrechion pendant i sicrhau bod staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

Yn sgil y swyddi gwag dros y 12 mis blaenorol bu problemau sylweddol o ran darparu goruchwyliaeth ar gyfer staff y ward. Fodd bynnag, gyda phenodi staff parhaol roedd rhaglen oruchwyllo wedi'i datblygu gyda goruchwyliaeth reolaidd yn dechrau ym mis Medi 2017 a dyddiadau yn y dyfodol wedi'u clustnodi yn nyddiaduron pobl.

Roedd y ward wedi dechrau cyfarfodydd staff ym mis Ebrill 2017, ac yn sgil prinder staff parhaol bu'n anodd nodi amseroedd addas pan allai staff fod ar gael. Cynhaliwyd tri chyfarfod staff ac roedd cyfarfodydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

⁸Mae Heddfan yn wasanaeth iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu gweithlu sefydlog ym Mryn Hesketh er mwyn sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan staff sydd â'r sgiliau priodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei system staff banc yn gweithredu'n effeithiol i ddarparu nifer digonol o staff sydd â'r sgiliau priodol yn ôl y galw.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei system atgyfeirio staff asiantaeth yn gweithredu'n effeithiol er mwyn darparu nifer digonol o staff sydd â'r sgiliau priodol yn ôl y galw.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff Bryn Hesketh yn cael eu cefnogi i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys Ymyriad Corfforol Cyfyngol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff Bryn Hesketh yn cael eu cefnogi i dderbyn goruchwyliaeth reolaidd

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff Bryn Hesketh yn cael eu cefnogi i gynnal cyfarfodydd staff rheolaidd.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG fel arfer yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Bryn Hesketh

Ward: Bryn Hesketh

Dyddiad yr arolygiad: 8 – 10 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bryn Hesketh

Ward: Bryn Hesketh

Dyddiad yr arolygiad: 8 – 10 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu paneli arsylwi i atal tarfu ar gwsg y cleifion.	4.1 Gofal ag Urddas	Y Tîm Uwch-reolwyr i drafod yr opsiwn o osod paneli Vistamatic ar ddrysau'r ystafelloedd gwely / drysau newydd eto gyda'r adran Ystadau o ganlyniad i'r argymhelliad gan yr adroddiad AGIC hwn, gan ystyried hefyd y model gwasanaethu yn y dyfodol a'r costau cyfalaf.	Rheolwr Gwasanaeth y	31 Ionawr 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y baddon i fenywod yn addas i'r cleifion hynny sydd angen cymorth i gael baddon.	4.1 Gofal ag Urddas	Mae'r adran ystadau wedi condemnio'r baddon a byddant yn darparu un arall yn ei le. Mae baddon arall yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion.	Yr adran ystadau	30 Ebrill 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd drwsio'r peiriant sychu dillad neu osod un arall yn ei le ym Mryn Hesketh.	4.1 Gofal ag Urddas	Archebwyd peiriant sychu dillad newydd a chaiff ei ddosbarthu ym mis Rhagfyr 2017	Rheolwr y Gwasanaeth	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	4.2 Gwybodaeth Cleifion	Mae gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) bellach yn cael eu harddangos.	Metron	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd gwybodaeth archwilio yn cynnwys amseroedd.	4.2 Gwybodaeth Cleifion	Mae'r hysbysfwrdd bellach yn dangos dyddiad yn ogystal â gwybodaeth archwilio a chynllun gweithredu.	Metron	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrediad addas o wybodaeth cleifion yn cael ei harddangos ar ôl cwblhau'r gwaith ailwampio.	4.2 Gwybodaeth Cleifion	Bydd amrediad o wybodaeth yn cael ei stocio a'i harddangos yn glir yn y dderbynfa ar ôl cwblhau'r gwaith ailwampio.	Rheolwr y Ward a Metron	31 Ionawr 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a sicrhau bod gan staff gymhorthion cyfathrebu ar gael yn hwylus er mwyn cynorthwyo cyfathrebu â chleifion.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Mae Therapi Galwedigaethol yn datblygu amrediad o gymhorthion cyfathrebu, gan gynnwys lluniau i'r bwydlenni er mwyn cynorthwyo cleifion.	Therapi Galwedigaethol a Metron	31 Ionawr 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod larymau personol yn cael eu gwella i gynnwys cortyn tynnu.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Rheolwr y Gwasanaeth i gysylltu â darparwyr i asesu dichonoldeb ychwanegu cortyn tynnu at y larymau personol. I'w gosod cyn diwedd Ionawr 2018.	Rheolwr y Gwasanaeth	31 Ionawr 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar gyfer dyletswydd meddygol amserol ar gael ar gyfer Bryn Hesketh.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae meddyg cylchdro ar y ward er ei fod yn rhan o rota dyletswyddau. Y Cyfarwyddwr Clinigol i adolygu a chymryd y camau gweithredu er mwyn sicrhau bod cyflenwad meddygol ar gael ar gyfer Bryn Hesketh. Caiff yr oedi a brofir gan gleifion sydd angen adolygiad meddygol eu cofnodi ar datix.	Cyfarwyddwr Clinigol	28 Chwefror 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau ym Mryn Hesketh.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadheintio	Cafodd amserlen lanhau ei hailgyflwyno ar y ward ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd a'r staff cadw tŷ.	Staff cadw tŷ	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu amrediad o gytleri a llestri i Fryn Hesketh a addaswyd yn arbennig.	2.5 Maetheg a Hydradiad	Cafodd cytleri a llestri a addaswyd yn arbennig eu harchebu ac maent wedi cyrraedd y ward.	Therapydd Galwedigaethol	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cwblhau siartiau bwyd a hylif, gan gynnwys y camau gweithredu sy'n angenrheidiol.	2.5 Maetheg a Hydradiad	Parhau i fonitro drwy'r archwiliad ansawdd a diogelwch misol ac arddangos y canlyniadau gyda'r cynllun gweithredu ar y bwrdd bob mis. Atgoffwyd y staff am y cam gweithredu hwn drwy gyfarfodydd staff a phoster i staff.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaeth, gan gynnwys cyffuriau a reolir, yn cael ei storio'n ddiogel ym Mryn Hesketh.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae cwpwrdd fferylliaeth Mediwell bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyffuriau a reolir.	Rheolwr y Ward a Phennaeth Fferylliaeth	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei harchebu mewn da bryd.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae Rheolwr y ward yn darparu hyfforddiant pellach i staff asiantaeth. Gwnaeth dibyniaeth ar staff asiantaeth leihau o fis Rhagfyr 2017. Mae ffeil hyfforddiant bellach ar waith ar gyfer staff asiantaeth gan gynnwys sut i archebu meddyginiaeth.	Rheolwr y Ward a Phennaeth Fferylliaeth	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer dosbarthu meddyginiaeth i Fryn Hesketh.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae meddyginiaeth yn cael ei dosbarthu i Ysbyty Bae Colwyn ac mae porthorion yn ei dosbarthu i Fryn Hesketh. Mae Fferylliaeth wedi adolygu'r trefniant cyfredol ac ni chaiff unrhyw newid ei wneud i ddsbarthu meddyginiaeth.	Prif Fferyllydd a Rheolwr y Gwasanaeth	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dull o adnabod drwy luniau ar gael ar holl siartiau meddyginiaeth cleifion.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Caiff ffotograffau eu cymryd ar liniadur y GIG ac mae gan holl siartiau meddyginiaeth cleifion ffotograff ynghlwm wrthynt.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn nodi statws cyfreithiol Deddf Iechyd Meddwl y cleifion yn glir.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau newydd yn cynnwys gofod ar gyfer cofnodi statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Caiff y siartiau newydd hyn eu defnyddio ar unwaith ar gyfer yr holl dderbyniadau newydd.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cynnwys copi o'r Dystysgrif Cydsyniad i Driniaeth ddiweddaraf	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae gan yr holl gleifion siart Cydsynio i Driniaeth yn y ffeil feddyginiaeth. Mae Rheolwr y ward wedi adolygu ac mae'r	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gan y cleifion.		cyfan yn eu lle.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliad o'r offer dadebru yn cael ei gwblhau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.	2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae Rheolwr y Ward yn cadarnhau bod y rhestrau gwirio offer dadebru yn cael eu cwblhau yn unol â chylchdro parhaus o fonitro gan Reolwr y ward	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu gofynion Mesur Cymru.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Caiff y cynlluniau gofal a thriniaeth eu monitro drwy archwiliad ansawdd a diogelwch bob mis, cyfarfodydd staff a goruchwyliaeth un i un. Metron i ddarparu hyfforddiant cynlluniau gofal a thriniaeth i staff newydd wrth iddynt gyrraedd y ward. Mae Metron yn hyfforddwr ar gyfer y bwrdd iechyd ac mae'n hyrwyddwr cynlluniau gofal a thriniaeth.	Rheolwr y Ward a Metron	Cwblhawyd

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod camau gweithredu ar gyfer y canfyddiadau y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu cwblhau er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu ym Mryn Hesketh.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Y Rheolwr Rhwydwaith Clinigol i fonitro cynnydd y cynllun mewn cyfarfodydd Is-grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad bob mis ar gyfer yr Ardal Ganolog. Hefyd, bydd y Grŵp Ansawdd a Diogelwch yn monitro ac yn goruchwyllo.	Nyrs Arweiniol	31 Ionawr 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sefydlogi'r gweithlu ym Mryn Hesketh er mwyn sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gyda staff sydd â'r sgiliau priodol.	7.1 Gweithlu	Bydd y Metron a Rheolwr y Ward yn parhau i weithio'n agos gyda'r Brifysgol sy'n cynnig y ddarpariaeth er mwyn annog myfyrwyr yn ôl i'r gweithlu ym Mryn Hesketh a bydd yn parhau i hysbysebu a recriwtio er mwyn llenwi swyddi gwag cyfredol. Mae'r ward wedi recriwtio Nyrsys Cofrestredig yn ddiweddar ac maent mewn preceptorïaeth ar hyn o bryd. Bydd hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar nyrsio asiantaeth dros y misoedd nesaf erbyn mis Mawrth 2018.	Metron a Rheolwr y Ward	31 Ionawr 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei system staff banc yn gweithredu'n effeithiol er mwyn darparu nifer digonol o staff sydd â'r sgiliau	7.1 Gweithlu	Bydd y Metron a Rheolwr y ward yn monitro cyfraddau cyflenwi sifftiau banc drwy'r Rhestr Waith Electronig a	Pennaeth Gwasanaethau	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
priodol yn ôl y galw.		byddant yn cysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Banc ar gyfer recriwtio cyfredol	Banc Metron a Rheolwr y Ward	
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei system atgyfeirio staff asiantaeth yn gweithredu'n effeithiol er mwyn darparu nifer digonol o staff sydd â'r sgiliau priodol yn ôl y galw.	7.1 Gweithlu	Bydd y Metron a Rheolwr y ward yn parhau i weithio'n agos gydag Asiantaethau Nyrsys a chodi unrhyw bryderon gyda Phennaeth y Gwasanaeth Banc a Chyfarwyddwr Nyrso Iechyd Meddwl. Caiff hyn ei fonitro drwy'r Rhestr Waith Electronig a DATIX.	Metron a Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff Bryn Hesketh yn cael eu cefnogi i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys Ymyriad Corfforol Cyfyngol.	7.1 Gweithlu	Mae'r holl staff parhaol wedi cwblhau hyfforddiant Ymyriad Corfforol Cyfyngol. Mae hyfforddwyr a gweithwyr cymorth gofal iechyd newydd wedi trefnu lle ar gyfer hyfforddiant Ymyriad Corfforol Cyfyngol. Caiff hyfforddiant gorfodol ei fonitro'n ofalus drwy adroddiadau Cofnod Staff Electronig a chaiff staff eu rhyddhau fel mater o flaenoriaeth er mwyn mynychu'r hyfforddiant hwn.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff Bryn Hesketh yn cael eu cefnogi i dderbyn goruchwyliaeth reolaidd.	7.1 Gweithlu	Mae cynllun goruchwyllo ar waith a chaiff ei arddangos ar y bwrdd yn y swyddfa ac mae dyddiadau wedi'u clustnodi i'r holl staff dderbyn goruchwyliaeth. Caiff y rhestr wirio goruchwyliaeth ei marcio yn erbyn pob aelod o staff ar ôl iddo gael ei gwblhau.	Rheolwr y Ward a Metron	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff Bryn Hesketh yn cael eu cefnogi i gynnal cyfarfodydd staff rheolaidd.	7.1 Gweithlu	Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal bob mis a chaiff cofnodion eu cadw mewn ffeil yn y swyddfa nyrsio i'r holl staff eu hadolygu.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: